Dirnad Economi Cymru
Economic Intelligence Wales

# Dirnad Economi Cymru

## *Clystyrau ecwiti yng Nghymru*

**Ebrill 2019**

Cardiff Business School
Ysgol Busnes Caerdydd

Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

Banc
BANC DATBLYGU CYMRU
DEVELOPMENT BANK OF WALES

## Cynnwys


Crynodeb Gweithredol 3

**1** Cyflwyniad 7

**2** Cyllid ecwiti a datblygu clysytyrau ecwiti 8

**3** Cyllid ecwiti a BBaCh yn rhanbarthau'r DU 12

**4** Cyllid ecwiti BBaCh yng Nghymru 17

**5** Canfyddiadau o ymgynghoriadau 23

**6** Argymhellion 27

Atodiadau 29



**Nikos Kapitsinis, Max Munday ac Annette Roberts**
*Uned Ymchwil Economi Cymru,*
*Ysgol Busnes Caerdydd*
mundaymc@cf.ac.uk


**Am wybodaeth bellach neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil, anfonwch e-bost at:**
DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

*Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cynghori ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.*


Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.



Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau cyntaf BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n llwyr i Weinidogion Cymru ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Banc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales Plc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwer nad yw Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Gellir dod o hyd i siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc yma bancdatblygu.cymru

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio mynediad busnesau bach a chanolig (BbaCh) at gyllid ecwiti yng Nghymru, ac i ba raddau y mae Caerdydd yn glwstwr ecwiti sy'n datblygu, er mwyn datblygu mwy o glystyrau o bosibl ar hyd a lled Cymru. Gellir deall clwstwr ecwiti fel lle sydd â gweithdrefnau a strwythurau sefydliadol diriaethol sy'n dod â buddsoddwyr a buddsoddeion yn agos at ei gilydd ac sy'n profi crynodiad uchel o gytundebau ecwiti. Mae Banc Busnes Prydain yn diffinio clystyrau ecwiti fel rhanbarthau lle mae gwahanol fathau o gytundebau ecwiti yn cael eu gwneud, gan fod 'trafodion cytundebau ecwiti yn tueddu i gael eu grwpio yn glystyrau daearyddol lle mae cwmnïau arloesol, gweithwyr medrus a buddsoddwyr ecwiti yn lleoli'n agos at ei gilydd.'

**Cyllid ecwiti**

Mae buddsoddiadau ecwiti fel arfer yn cael eu gwneud gan gronfeydd cyfalaf menter, angylion busnes, cyllidwyr torfol, buddsoddwyr corfforaethol, neu gronfeydd y Llywodraeth, ac maent yn digwydd ar wahanol gamau o ddatblygiad cwmni. Mae hyn yn cynnwys cyllid sbarduno, arian cyllido ar gyfer dechrau busnes, ariannu camau cynnar, cyllid ehangu, a chyllid amnewidiol.

### *Mae lefelau ariannu ecwiti yn bwysig i ddatblygiad economaidd Cymru*

Canfyddir bod cwmnïau sy'n derbyn cyllid ecwiti yn dangos trosiant  a thwf cyflogaeth cyflymach, ac mae ganddynt lwybrau cryfach tuag at brosesau arloesi. Mae rhanbarthau sydd â niferoedd cymharol uchel o fuddsoddiadau ecwiti yn dangos twf economaidd mwy cadarn, cyfraddau cyflogaeth cynyddol a ffyniant economaidd uchel. Fodd bynnag, mae bylchau yn y cyflenwad (a'r galw) am ecwiti BBaCh yn bodoli mewn llawer o ranbarthau ymylol y DU ac maent yn gysylltiedig â chyd-destunau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n benodol i ddaearyddiaeth.

### *Mae Banc Datblygu Cymru yn brif asiant ym maes cyllid ecwiti yng Nghymru*

Mae Banc Datblygu Cymru yn chwarae rôl froceriaeth bwysig wrth ddod â BBaCh a buddsoddwyr ecwiti eraill at ei gilydd. Yn ôl nifer y buddsoddiadau, mae Banc Datblygu Cymru ymhlith y buddsoddwyr ecwiti BBaCh mwyaf yn y DU, ar ôl Seedrs, Crowdcube, Scottish Enterprise, a Syndicate Room. Gwnaeth Banc Datblygu Cymru 62 o fuddsoddiadau ecwiti yn 2017, a 77 yn 2018. Rhwng 2002 a 2018, gwnaeth Banc Datblygu Cymru (a Cyllid Cymru gynt) 628 o fuddsoddiadau ecwiti, gyda chyfanswm gwerth o £158m. Gwasanaethau proffesiynol, gweithgynhyrchu, a gwybodaeth a chyfathrebu yw prif dderbynwyr cronfeydd ecwiti Banc Datblygu Cymru.

Derbyniodd BBaCh yng Nghaerdydd 27% o werth buddsoddiadau ecwiti Banc Datblygu Cymru a 30% o nifer y buddsoddiadau yn y cyfnod 2002-2018. Mae'r crynhoad hwn wedi bod yn adlewyrchu'r galw ond mae Banc Datblygu Cymru yn ysgogydd ar gyfer buddsoddi mwy o ecwiti ar hyd a lled Cymru.

### *Cysyniad a datblygiad clwstwr ecwiti*

Mae clystyrau ecwiti yn gydrannau allweddol o ecosystem entrepreneuraidd ranbarthol. Mae'r adroddiad yn codi rhai materion o ran y cysyniad o glystyrau ecwiti. Prin fod y term yn cael ei gydnabod mewn llenyddiaeth ymchwil, gyda mwy o ymchwil yn canolbwyntio ar y cysyniad o glystyrau ariannol a ddiffinnir fel crynodiadau gofodol o gwmnïau ariannol. At hynny, gellid deall clwstwr ecwiti o ran crynodiad y cytundebau ecwiti a wneir mewn ardal. Fodd bynnag, wrth lunio  'clwstwr' dylid ystyried tarddiad arian, yn ogystal â  thiriogaeth y gyrchfan lle gwneir y buddsoddiad (lle mae derbynwyr ecwiti wedi'u lleoli). Gallai'r rhain fod ychydig yn bell oddi wrth ei gilydd fel y gallai 'clwstwr' o gytundebau ecwiti fod yn berthnasol i ddarparwyr sydd ymhell oddi wrth y derbynwyr.

Mae ffactorau sy'n effeithio ar esblygiad a thwf canolfannau ariannol wedi'u cysylltu'n agos â'r ffactorau sy'n egluro'r syniad o glystyrau ecwiti. Mae'n debygol y bydd crynhoad gofodol mewn buddsoddiadau ecwiti sy'n adlewyrchu crynodiadau o fuddsoddwyr posibl, a'r galwadau gan gwmnïau. Gall casgliad o fuddsoddwyr ecwiti mewn un lle atgyfnerthu'r galwadau am ecwiti mewn lleoliad penodol, ac mae cwmnïau sy'n agos at ddaearyddiaeth ecwiti yn fwy tebygol o dderbyn buddsoddiadau ecwiti. At hynny, mae gwybodaeth ddealledig a chyswllt wyneb yn wyneb yn ffactorau pwysig ar gyfer amlygrwydd a thwf clystyrau ecwiti.

***Mae Caerdydd yn glwstwr ecwiti sy'n esblygu***

Mae yna arwyddion calonogol bod darnau o'r ecosystem ecwiti eisoes ar waith a / neu'n esblygu yng Nghaerdydd. Mae gan Gaerdydd grynodiad cryf o gwmnïau gwasanaethau ariannol, a nifer fawr o gwmnïau sydd wedi elwa ar raglenni cyflymwyr busnes. Mae Caerdydd yn wannach o ran nifer y cwmnïau sy'n deillio o brifysgolion sy'n elfen allweddol arall o ecosystem ecwiti.

***Ymgynghoriadau: Beth yw'r materion allweddol sy'n ymwneud â chyflenwi, a'r galw am, gyllid ecwiti yng Nghaerdydd a Chymru?***

Nododd ymgynghoriadau ddiffyg cytundebau ecwiti yn cynnwys £0.5m neu fwy (er y nodir y gall Banc Datblygu Cymru fuddsoddi hyd at £5m mewn cytunebau ecwiti, ond fe nodwyd problemau wrth gyfateb y buddsoddiadau hyn â chyfalaf o ffynonellau preifat eraill). Roedd cytundebau mwy yn fwy tebygol o gael eu cynnal gan gwmnïau ecwiti preifat mawr a leolir yn Llundain yn bennaf. Ychydig iawn o BBaCh yng Nghymru sydd â'r raddfa, yr amser, yr adnoddau a'r rhagolygon twf uchel i ddenu'r math hwn o gyllid o farchnadoedd ecwiti y tu allan i Gymru.

Mae'r cyflenwad o gyllid ecwiti yng Nghymru i raddau helaeth yn adlewyrchu problem galw heb ddigon o fathau o fusnesau o ran trosiant ac elw sy'n gallu neu sydd â'r awydd i godi cyllid ariannu ecwiti ar raddfeydd mwy. Mae nifer a gwerth cytundebau'n dibynnu'n llwyr ar sylfaen fusnes y rhanbarth, yn ffactor sy'n effeithio ar yr ochr gyflenwi a galw am gyllid ecwiti, a'r rhagolygon ar gyfer datblygu clwstwr ecwiti o amgylch Caerdydd.

Mae BBaCh yng Nghymru yn fwy tebygol o amsugno cyllid ecwiti gan fuddsoddwyr sydd hefyd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mynegwyd pryderon ynghylch a oedd cynlluniau'r llywodraeth a sefydlwyd i hybu cyflenwad symiau bach o gyfalaf risg i BBaCh yn cael eu defnyddio'n ddigonol.

Datgelodd ymgynghoriadau anawsterau ymysg BBaCh wrth fynd ati i hyrwyddo eu cynlluniau a'u hyrwyddo i ddarpar fuddsoddwyr. Ynghyd â hyn, nid oedd buddsoddwyr ecwiti yn gallu dod o hyd i BBaCh â chynlluniau buddsoddi sy'n bodloni eu meini prawf buddsoddi, gyda hyn yn gysylltiedig gydag ymwybyddiaeth entrepreneuriaid ynghylch cyfleoedd ariannu ecwiti, cynlluniau'r llywodraeth a buddsoddwyr ecwiti yn eu hardal yn isel.

***Ymgynghoriadau: Sut y gall y cyflenwad o, ac y galw am, gyllid ecwiti BBaCh gael ei wella?***

Mae angen rhoi ystyriaeth i wella'r cyflenwad o gronfeydd ecwiti a chyfalaf menter trwy ddefnyddio syndicetiau sy'n adeiladu ar rwydweithiau buddsoddwyr angel presennol. Yn hyn o beth, mae croeso mawr i weithgaredd diweddar Banc Datblygu Cymru yn sgil lansiad Angylion Buddsoddi Cymru, Cronfa Gyd-fuddsoddi Angylion Cymru, a gwaith i nodi buddsoddwyr angel arweiniol sydd â'r potensial i ffurfio syndicetiau.

Gellid rhoi mwy o ystyriaeth i ddenu cyfalaf gan alltudwyr o Gymru, a dangos cyfleoedd buddsoddi i'r alltudiaeth hwn. Gallai mentrau Llywodraeth Cymru fel prosiect 'Global Wales / Cymru Fyd-eang' fod yn hanfodol yn hyn o beth.

Mae'n ymddangos bod cyllid ecwiti yng Nghymru wedi'i dargedu at nifer fach o sectorau. Gellid annog buddsoddwyr ecwiti i archwilio sectorau eraill yn yr economi ranbarthol, ac edrych yn fwy gofalus ar eu meini prawf ariannu, ac a oes modd ystywio hyn i gynyddu'r mathau o BBaCh sy'n gymwys i dderbyn cyllid.

Mae angen i'r offerynnau polisi rhanbarthol fel y maent yn berthnasol i ariannu ecwiti fod wedi'u cysylltu'n well â pholisi datblygu economaidd cyffredinol yng Nghymru, a bod â chysylltiad gwell â dadleuon ynghylch y broblem cynhyrchiant yng Nghymru.

Mae cynyddu ymwybyddiaeth entrepreneuraidd o gynlluniau ariannu ecwiti ac yn enwedig manteision codi cyfalaf ecwiti yn hanfodol, gyda her i BBaCh yng Nghymru fod yn fwy 'parod ar gyfer buddsoddiad.' Mae hyfforddiant entrepreneuraidd o ran sut y gallant fynd at fuddsoddwyr a hyrwyddo cynlluniau ariannol a syniadau busnes yn effeithiol yn bwysig, yn ogystal â deall yn y meini prawf ariannu a ddefnyddir gan fuddsoddwyr ecwiti yn well.

***Argymhellion:***

Mae argymhellion yr adroddiad yn ymwneud â'r modd y gellir gwella'r cyflenwad o arian cyllido ecwiti a'r galw amdano yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn dadlau nad yw'r mater datblygu ar gyfer Cymru yn ymwneud â phresenoldeb neu fel arall clwstwr ecwiti, ond yn hytrach gwella amodau cyffredinol o amgylch cyflenwad ecwiti a nodi galw am ecwiti mewn gwahanol rannau o Gymru, ac mewn ystod eang o sectorau. Yr argymhellion yw:

- Mae angen cymryd gofal wrth ddatblygu Caerdydd yn unig fel clwstwr ecwiti. Mae twf diweddar cryf a chyfansoddiad sectoraidd Caerdydd yn datgelu nifer o brosiectau sydd ar gael i fuddsoddwyr ecwiti, a chydag elfennau o'r ochr gyflenwi sydd eisoes yn eu lle, ond gyda rhai problemau'n gysylltiedig â chodi cyfalaf gan gyllidwyr sector preifat yn y rhanbarth. Mae angen mwy o ffocws ar ddatblygu'r galw am ecwiti ar hyd a lled Cymru mewn nifer ehangach o sectorau.

- Dylid gwneud mwy i dynnu sylw BBaChau Cymru am fanteision ecwiti a ffynonellau ecwiti, a'r cymorth sydd ei angen i helpu entrepreneuriaid i ddatblygu eu hachosion busnes ar gyfer ecwiti. Mae creu digon o rwydweithiau sefydliadol rhanbarthol a lleol i alluogi dysgu am bosibiliadau cyllido ecwiti yn angenrheidiol, yn ogystal â gwella gwybodaeth am gynlluniau ecwiti gwladol presennol.

- Er bod gan Gaerdydd dair prifysgol ymchwil ac felly mae nhw mewn sefyllfa unigryw i gydlynu ymdrech i gynyddu niferoedd y deilliannau, dylai cyrhaeddiad a chyflenwad cyllid ecwiti Banc Datblygu Cymru geisio gweithio gyda phrifysgolion ar hyd a lled Cymru i hwyluso cynnydd mewn deilliannau.

- Mae ffocws sectoraidd cytundebau ecwiti mewn sectorau fel gweithgynhyrchu, gwasanaethau busnes a TGCh yn bryder. Gellid annog buddsoddwyr ecwiti i fireinio eu rheolau a'u sgriniau buddsoddi er mwyn darparu ar gyfer gwahanol sectorau.

- Mae angen mwy o ymdrech i nodi galw posibl am ecwiti mewn rhannau o Gymru nad ydynt yng Nghaerdydd, gan gynnwys cwmnïau mewn ardaloedd gwledig. Yn hyn o beth, mae tynnu sylw buddsoddwyr ecwiti at gyfleoedd ar hyd a lled Cymru yn holl bwysig. Mae Banc Datblygu Cymru mewn sefyllfa dda i asesu'r galw am ecwiti ar hyd a lled y wlad.

- Mae angen ymchwilio i'r honiad bod gofynion ecwiti sy'n fwy na £0.5m yn fwy anodd eu gwasanaethu yng Nghymru. Gan fod Banc Datblygu Cymru yn gallu buddsoddi hyd at £5m mewn cytundebau ecwiti, mae hyn yn awgrymu bod yna ddiffyg cyfalaf o ffynonellau sector preifat eraill i'w gosod ochr yn ochr â chytundebau ecwiti mwy sy'n cynnwys Banc Datblygu Cymru. Mae tynnu sylw buddsoddwyr ecwiti allanol at brosiectau rhanbarthol posibl y tu allan i Dde Ddwyrain Cymru yn flaenoriaeth.

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn *Traciwr Ecwiti Busnesau Bach* 2017 Banc Busnes Prydain a nododd fod 'rhanbarthau o Loegr a ffigurau gweinyddu datganoledig yn cuddio'r amrywiad mawr yn y niferoedd cytundebau ecwiti sy'n digwydd mewn ardaloedd gan fod cytundebau ecwiti yn tueddu i gael eu grwpio yn glystyrau daearyddol lle mae cwmnïau arloesol, llafur medrus a lle mae buddsoddwyr ecwiti yn lleoli yn agos at ei gilydd'. Nododd *Traciwr Ecwiti Busnesau Bach* 2017 hefyd fod Caerdydd yn un o'r 25 Awdurdod Lleol gorau o ran nifer y cytundebau ecwiti. Er mwyn archwilio'r cysyniad hwn ymhellach, mae angen trosolwg o gyllid ecwiti yng Nghymru hefyd.

Nod yr adroddiad hwn yw archwilio:

• Mynediad BBaCh at gyllid ecwiti yng Nghymru.

• Y ffactorau sy'n egluro patrwm cytundebau ecwiti BBaCh ar hyd a lled Cymru.

• I ba raddau y mae amodau rhanbarthol yn cefnogi datblygu clwstwr ecwiti yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

Mae rhan nesaf yr adroddiad yn disgrifio nodweddion cyllid ecwiti, pwysigrwydd daearyddiaeth wrth lunio yr ochr galw a chyflenwad o gyllid ecwiti, a'r ffactorau sy'n pennu esblygiad clystyrau ecwiti. Mae Rhan 3 yn dadansoddi mynediad BBaCh at gyllid ecwiti yn y DU, ei ddosbarthiad daearyddol ac ymddangosiad clystyrau ac ecosystemau ecwiti.

Mae Rhan 4 yr adroddiad yn archwilio tueddiadau penodol mewn cyllid ecwiti BBaCh yng Nghymru, yn archwilio cytundebau ecwiti ar hyd a lled Cymru dros amser, ac yn archwilio nifer, gwerth a chyfnod y cytundebau ecwiti a gwblhawyd gan Banc Datblygu Cymru, cyn archwilio dosbarthiad daearyddol cyllid ecwiti yng Nghymru. Mae ffocws ar y crynodiad gofodol o weithgarwch ecwiti yng Nghaerdydd o ran y galw am, a'r cyflenwad o ecwiti.

Yna mae rhan 5 yn adolygu canfyddiadau cyfres o ymgynghoriadau a gynhaliwyd i archwilio ffactorau sy'n egluro'r galw am gyllid ecwiti i BBaCh yng Nghymru, a'r cyflenwad ohonynt, ac a ystyriodd yr hyn a ellid ei wneud i wella cyfleoedd ar gyfer buddsoddwyr ecwiti posibl mewn BBaCh yng Nghymru, yn ogystal ag entrepreneuriaid sy'n ceisio'r math hwn o gyllid, ac yna beth y gellid ei wneud i ddatblygu clwstwr ecwiti yn ardal Caerdydd.

Mae rhan olaf yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion mewn perthynas â gwella amodau galw a chyflenwad cyllid ecwiti yng Nghymru, a'r camau y gellid eu cymryd i esblygu clwstwr ecwiti yn ardal Caerdydd yn well.

# 2. Cyllid ecwiti a datblygu clystyrau ecwiti

## 2.1. Cyllid ecwiti

Mae cyllid ecwiti yn cynnwys codi arian drwy ddosbarthu cyfranddaliadau o stoc cyffredin neu stoc a ffefrir. Gall ecwiti gynnig enillion elw cryf ar fuddsoddiad lle mae cwmnïau'n llwyddiannus ac yn tyfu, ond fe all fod yn gyllid lle mae risg ynghlwm iddo i fuddsoddwyr a does dim gwarant y bydd yna enillion ariannol rheolaidd. Felly, mae buddsoddwyr ecwiti fel arfer yn chwilio am gyfleoedd gyda chwmnïau twf uchel sydd â chynlluniau busnes cryf ac argyhoeddiadol. Fodd bynnag, yn groes i ddyled, lle mae'r benthyciwr yn talu llog, mae buddsoddwr ecwiti yn rhannu elw, ond hefyd y colledion. Yn anochel, gall buddsoddi mewn ecwiti gynnwys rhyw gymaint o wanhau perchnogaeth a rheolaeth o ran perchennog y cwmni.

Gall buddsoddiad ecwiti ddigwydd ar wahanol gamau o ddatblygiad cwmni ac mae'n cynnwys cyllid ariannu sbarduno, cyllid dechrau busnes, ariannu cam cynnar, cyllid ehangu, cyllid newydd, neu "ariannu fwlturiaeth." Mae buddsoddiadau ecwiti fel arfer yn cael eu gwneud gan gronfeydd cyfalaf menter, angylion busnes, cyllidwyr torfol, buddsoddwyr corfforaethol, a chronfeydd y Llywodraeth. Efallai na fydd buddsoddwyr ecwiti yn darparu arian yn unig ond mewnbwn rheolaethol yn ogystal â stoc o gyngor busnes.

Mae'r cyflenwad o gyllid ecwiti, yng nghyd-destun datblygiad economaidd Cymru, o ddiddordeb o achos nifer o ffactorau:

- Mae cwmnïau sy'n derbyn cyllid ecwiti yn dangos trosiant cyflymach a thwf cyflogaeth.[1]
- Mae cyllid ecwiti wedi'i gysylltu â chynnydd yn effeithlonrwydd prosesau arloesi cadarn.[2]
- Mae'r rhanbarthau sydd â niferoedd cymharol uchel o fuddsoddiadau ecwiti yn dangos twf economaidd mwy cadarn, cyfraddau cyflogaeth cynyddol a ffyniant economaidd uchel.

Mae cyllid ariannu ecwiti wedi tyfu'n gryf yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn erbyn cefndir o gyfansoddiad newidiol mewn buddsoddiad busnes, yn aml yn disodli buddsoddiad llif arian, yn enwedig mewn busnesau gyda llif arian negyddol neu gwmnïau ifanc ac uwch-dechnoleg.[3] Fel arfer, trafodir cyllid ecwiti o ran corfforaethau mawr a fasnachwyd yn gyhoeddus, yn hytrach na chwmnïau micro a bach, gyda hyn yn rhannol oherwydd y gost gymharol uchel sy'n gysylltiedig ag ariannu ecwiti ar gyfer BBaCh.

Fodd bynnag, mae'r amgylchedd economaidd o ran buddsoddiadau ecwiti wedi newid, gyda chostau gostyngol yn gysylltiedig â chyllid ecwiti, gwell amodau mynediad ar gyfer buddsoddiadau ecwiti ar gyfer BBaCh a chyda rheolwyr cronfeydd yn chwilio am fuddsoddiadau y tu hwnt i gwmnïau mawr a chyfalafol.[4]

[1] Beauhurst (2018) *The Scaleup Index 2018*. Ar gael yn: http://www.scaleupinstitute.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/ScaleUp-Index-2018-FINAL.pdf
[2] Frontier Economics (2013) *Exploring the impact of private equity on economic growth in Europe*. Ar gael yn: https://www.investeurope.eu/media/12929/Frontier-Economics-Report.pdf
[3] Chen, J. and Quang, T. (2012) *International Financial Integration and Economic Growth: New Evidence on Threshold Effects*. Paris, Paris School of Economics.
[4] Allayannis, G. and Mozumdar, A. (2004) The impact of negative cash flow and influential observations on investment-cash flow sensitivity estimates. *Journal of Banking and Finance* 28, 901–930

Mae ymchwil yn nodi bylchau cysondeb ecwiti ar gyfer BBaCh gyda hyn yn gysylltiedig â chyd-destunau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n benodol i ddaearyddiaeth. [5] Diffinnir y bylchau hyn fel 'ystod amcangyfrifedig o feintiau cytundebau ecwiti sy'n derbyn cymharol ychydig o fuddsoddiad gan fuddsoddwyr preifat, yn aml oherwydd materion strwythurol neu nodweddion o'r economi yn amddifadu buddsoddiad yn y gwerthoedd hyn'.[6] Nid yw'r bylchau ariannu hyn wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws lleoliadau, gan amlygu rôl hanfodol daearyddiaeth mewn marchnadoedd ecwiti.

## 2.2. Mae daearyddiaeth o bwys: clystyrau ecwiti

Mae daearyddiaeth o bwys mewn marchnadoedd ecwiti, wrth i ranbarthau a dinasoedd wahaniaethu o ran eu strwythur ariannol, gyda hyn yn benderfynydd o grynodiad gofodol buddsoddiadau ecwiti. **Mae'n bosibl y bydd cysyniad clwstwr ecwiti yn cael ei gysyniadu fel lle sydd â gweithdrefnau a strwythurau sefydliadol pendant sy'n dod â buddsoddwyr a buddsoddeion yn agos at ei gilydd ac yn profi crynodiad uchel o gytundebau ecwiti**. Mae Banc Busnes Prydain yn diffinio clystyrau ecwiti fel rhanbarthau lle mae cytundebau ecwiti amrywiol yn cael eu gwneud, gan fod 'cytundebau ecwiti yn tueddu i gael eu grwpio yn glystyrau daearyddol lle mae cwmnïau arloesol, gweithwyr medrus a buddsoddwyr ecwiti yn lleoli yn agos at ei gilydd.'[7]Efallai mai un agwedd ar glystyrau ecwiti yw bod rhwydwaith dwys o fuddsoddwyr angel busnes yn bresennol.

Mae angen tynnu sylw at dri mater ar y dechrau mewn perthynas â chlystyrau ecwiti.

- Ychydig o gydnabyddiaeth y mae'r term yn ei gael mewn llenyddiaeth ymchwil. Mae papurau academaidd yn canolbwyntio ar y cysyniad o glystyrau ariannol a ddiffinnir fel crynodiadau gofodol o gwmnïau ariannol, gyda'r ochr gyflenwi ar gyfer sawl math o gyllid corfforaethol.
- Gellid deall clwstwr ecwiti o ran crynodiad y cytundebau ecwiti a wneir mewn ardal. Fodd bynnag, mae cytundebau ecwiti yn wahanol i lifau ecwiti, gyda'r olaf yn ymwneud â llif daearyddol cyfalaf ariannol o un lle i'r llall. Yna, wrth lunio 'clwstwr', dylid ystyried tarddiad arian (lle mae darparwyr ecwiti yn seiliedig), yn ogystal â'r diriogaeth cyrchfan lle gwneir y buddsoddiad (lle mae derbynwyr ecwiti wedi'u lleoli). Gallai'r rhain fod ychydig yn bell oddi wrth ei gilydd fel y gallai 'clwstwr' o gytundebau ecwiti fod yn berthnasol i ddarparwyr sydd ymhell oddi wrth y derbynwyr. Yn yr adroddiad hwn mae'r ffocws yn fwy ar ble mae derbynwyr ecwiti wedi eu lleoli. Mae hyn yn dod â rhagdybiaeth ymhlyg, yn achos BBaCh, bod llawer o'r buddsoddwyr yn agos at y cwmnïau yn ddaearyddol fel eu bod yn cael mynediad at wybodaeth werthfawr sydd ar gael i fuddsoddwyr lleol / rhanbarthol yn hytrach na buddsoddwyr mwy anghysbell. [8] Gall y dybiaeth hon fod yn fwy priodol mewn rhai achosion nag eraill.

[5] Klagge, B. and Martin, R. (2005) Decentralized versus centralized financial systems: is there a case for local capital markets? *Journal of Economic Geography* 5, 387-421.
[6] British Business Bank (2018) *Small business finance markets 2017/18*. Ar gael ar: https://www.british-business-bank.co.uk/wp-content/uploads/2018/02/Small-Business-Finance-Markets-2018-Report-web.pdf
[7] British Business Bank (2017) *Small Business Equity Tracker*. Ar gael ar: https://www.british-business-bank.co.uk/wp-content/uploads/2017/07/239-Small-Business-Equity-Tracker-Report_2017WEB.pdf
[8] Wójcik, D. (2009) Proximity in secondary equity markets. In G.L. Clark, A. Dixon, and A. Monk (eds). *Managing Financial Risks: From Global to Local*, pp. 141–161. Oxford, Oxford University Press.

- Yn drydydd, er bod y ffocws yn yr adroddiad hwn ar gytundebau ecwiti, mae'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd i lywio'r gwaith yn dangos nad yw'r data sydd ar gael yn nodi'r holl gytundebau ecwiti. Mae Banc Busnes Prydain yn awgrymu nad oes ffynhonnell ddata sy'n cipio pob cytundeb, ac fe ddisgwylir hyn oherwydd natur breifat rhai buddsoddiadau ecwiti.[9] At hynny, gyda ffocws ar BBaCh, mae cwmnïau ecwiti yn llai tebygol o gael eu hadrodd gan gwmnïau neu fuddsoddwyr. Yn hanfodol, nid oes dyletswydd gyfreithiol i adrodd yn gyhoeddus ar fuddsoddiadau ecwiti.

## 2.3. Datblygu clystyrau ecwiti

Disgwylir i ffactorau sy'n effeithio ar esblygiad a thwf canolfannau ariannol yn gyffredinol fod â chysylltiad agos â'r ffactorau sy'n egluro clystyrau ecwiti. Mae rhanbarthau a dinasoedd yn wahanol o ran strwythur ariannol, a chryfder yr ochr galw a chyflenwi ar gyfer cyllid ecwiti. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd crynhoad gofodol mewn buddsoddiadau ecwiti sy'n adlewyrchu crynodiadau o fuddsoddwyr o'r ochr gyflenwi a galwadau gan gwmnïau.

At hynny, ni ellir cyfathrebu gwybodaeth yn hawdd bob amser ar draws pellter,[10] yn enwedig materion sydd yn ymwneud â'r cyd-destun busnes a nodweddion meddal BBaCh. Mae hyn yn golygu bod agosrwydd gofodol rhwng buddsoddwyr a buddsoddeion yn bwysig o ran ansawdd llif gwybodaeth a lleihau anghymesuredd gwybodaeth. Gallai'r broblem wybodaeth amherffaith weithio i annog clystyrau o weithgarwch lle gellir rhannu gwybodaeth yn haws ymhlith gwahanol fathau o fuddsoddwyr.[11] O ganlyniad, mae casgliad o fuddsoddwyr ecwiti mewn un lle yn atgyfnerthu lefel uchel o alw am ecwiti mewn lleoliad penodol, ac mae cwmnïau sy'n agos at ddaearyddiaeth ecwiti yn fwy tebygol o dderbyn buddsoddiadau ecwiti.

Yn gyffredin â chlystyrau diwydiant, mae gwybodaeth ddealledig a chyswllt wyneb-yn-wyneb yn ffactorau pwysig ar gyfer ymddangosiad a thwf clystyrau ecwiti.[12] Mae cysylltiadau agos a rhwydweithiau sy'n seiliedig ar rannu gwybodaeth a deallusrwydd yn cael eu rhwystro gan bellter ac maent wedi'u hadeiladu'n well ar gysylltiadau wyneb yn wyneb.[13] Mae'r un ffactorau hyn yn effeithio ar esblygiad deinamig clystyrau ecwiti. Gellid denu buddsoddwyr i leoliadau lle mae busnesau wedi eu clystyru, ond efallai bod yr un clwstwr o gwmnïau wedi bod yn gysylltiedig ag argaeledd cyfalaf ecwiti yn barod. Er enghraifft, weithiau mae clystyrau ecwiti yn gysylltiedig â chlystyrau uwch-dechnoleg rhanbarthol datblygedig, gan fod cyllid cyfalaf menter ac ecwiti yn targedu busnesau technoleg uchel a thwf uchel.[14] Mae'r clystyru hwn yn ysgogi buddsoddiad ecwiti ymhellach wrth i fuddsoddwyr greu eu rhwydweithiau eu hunain yn seiliedig ar rannu gwybodaeth a deallusrwydd rhyngddynt eu hunain fel mecanwaith i gynhyrchu gwybodaeth ddealledig, cynnal diwydrwydd dyladwy ehangach ar fuddsoddiadau a chynhyrchu mynegiad o'r enillion disgwyliedig o fewn sectorau rhanbarthol.

At hynny, gall deoryddion busnes a chyflymwyr sy'n cefnogi busnesau i gyflawni twf uchel, hefyd wneud buddsoddiadau ecwiti yn y cwmnïau hyn.[15] O ganlyniad, gallai clystyrau ecwiti ac uwch-dechnoleg 'greu… synergeddau rhwydweithio sy'n atgyfnerthu ei gilydd rhwng entrepreneuriaid, cyfryngwyr, a chyfalafwyr menter.'[16]

---

[9] British Business Bank (2017) *Small Business Equity Tracker. Gweler troednodyn 7.*
[10] Martin, R. (ed.) (1999) *Money and the Space Economy*. Chichester, John Wiley & Sons.
[11] Martin, Ret al. (2005) Spatial proximity effects and regional equity gaps in the venture capital market: evidence from Germany and the United Kingdom. *Environment and Planning A,* 37, 1207-1231.
[12] Wójcik, D. (2009) gweler yn gynharach.
[13] Gertler, M. (2003) Tacit knowledge and the economic geography of context, or the undefinable tacitness of being (there). *Journal of Economic Geography* 3, 75-100.
[14] Norton, R. (2001) *Creating the New Economy: The Entrepreneur and US Resurgence* Cheltenham, Edward Elgar.
[15] Beauhurst (2018) Ar gael ar: https://about.beauhurst.com/accelerating-the-uk-report/
[16] Martin, R., et al. (2005) gweler yn gynharach.

Mae agosrwydd at farchnadoedd trefol mawr hefyd yn arwyddocaol ar gyfer gweithgarwch buddsoddi ecwiti. Mae lefelau crynhoi yn effeithio ar nifer y buddsoddwyr, nifer y cwmnïau twf uchel, ac ochr y cyflenwad ecwiti o ran doniau / talentau, sgiliau a chyfalaf dynol.[17] Mae'r ffactorau hyn hefyd yn atgyfnerthu eu hunain mewn crynoadau mawr, a gellir eu gosod ar wahân i ffactorau sefydliadol ehangach fel sefydlogrwydd gwleidyddol, ymddiriedolaeth gymdeithasol a'r amgylchedd busnes ehangach, y dangoswyd eu bod yn ffactorau sylweddol ar gyfer llifau ecwiti a dyfodiad canolfannau ariannol lleol.[18]

Yn seiliedig ar yr adolygiad o lenyddiaeth, mae cyfres o ffactorau yn bwysig wrth bennu esblygiad clystyrau ecwiti. Crynhoir y ffactorau hyn yn Ffigur 1.

**Ffigur 1: Ffactorau mewn esblygiad clwstwr ecwiti**




[17] MacKinnon, A., Cumbers, A. (2019) Introduction to Economic Geography: Globalization, Uneven Development and Place. NY Routledge.
[18] Osei-Assibey, E. and Adu, S.O. (2016) Determinants of portfolio equity flows to Sub-Saharan Africa. *African Journal of Economic and Management Studies* 7, 446-461.

## 3. Cyllid ecwiti a BBaCh yn rhanbarthau'r DU


Mae economi'r DU yn cydweddu gydag achos cyffredin o ddaearyddiaeth o fuddsoddwyr ecwiti a chyfalafwyr menter sydd wedi'u canoli'n gryf. Mae gwerth cyfalafu y farchnad gwmnïau sydd wedi'u lleoli yn ardal Llundain Fawr ar Gyfnewidfa Stoc Llundain fel arfer yn fwy na chwe gwaith cymaint â chynnyrch domestig gros y rhanbarth. Yn ogystal, mae tua 75% o gwmnïau cyfalaf menter y DU wedi'u lleoli yn ardal Llundain Fawr. Mae'r system ariannol ganolog hon yn effeithio ar botensial twf clystyrau ecwiti mewn rhanbarthau sydd ar ei hôl hi yn y DU, gyda goblygiadau i gyfalaf ecwiti sy'n llifo i BBaCh yn yr un rhanbarthau hyn.[19]

Disgwylir i BBaCh mewn rhanbarthau sydd ar ei hôl hi yn y DU gael trafferth codi arian o gronfeydd yn Llundain oherwydd costau uchel trafodion, anghymesuredd gwybodaeth a risg uchel o'i gymharu â'r enillion ar fuddsoddiadau. Gwelwyd bod rhannau mwy ymylol o'r DU yn wynebu prinder cymharol o fuddsoddiadau ecwiti.[20]

### 3.1. Cyllid ecwiti BBaCh

Mae nifer a maint y cytundebau ecwiti yn BBaCh y DU wedi cynyddu yn y cyfnod hyd at 2017. Yn 2011, roadd 480 o fuddsoddiadau ecwiti newydd wedi'u gwneud gyda gwerth o £1.25bn, tra yn 2017, cyrhaeddwyd nifer y buddsoddiadau ecwiti newydd 1,744 gyda chyfanswm gwerth o £8.6bn. Y prif sectorau o ran cytundebau ecwiti y DU yw gweithgareddau technoleg uchel a gwasanaethau busnes a phroffesiynol. Mewn perthynas â'r cam buddsoddi, mae'r BVCA yn awgrymu, yn 2017, bod 41 o gwmnïau yng Nghymru wedi derbyn cyfalaf menter (buddsoddiad o £18m), 9 wedi derbyn cyfalaf twf (£21m), a 4 wedi derbyn cyfalaf allbrynu (£21m). Mae hyn yn cymharu â 384 o gwmnïau yn y DU sy'n derbyn cyfalaf menter (buddsoddiad o £463m), 259 wedi derbyn cyfalaf twf (£991m), a 158 wedi derbyn buddsoddiadau allbrynu (£8.26bn). Mae'r ffigurau BVCA ar gyfer cwmnïau o bob maint.[21]

**Ffigur 2: Buddsoddiadau ecwiti yn BBaCh y DU 2011-17[22]**




[19] Klagge, B. and Martin, R. (2005) gweler yn gynharach.
[20] Martin, R., et al. (2005) gweler yn gynharach.
[21] BVCA (2017) BVCA Report on Investment Activity 2017. Ar gael ar: https://www.bvca.co.uk/Portals/0/Documents/Research/Industry%20Activity/BVCA-RIA-2017.pdf?ver=2018-07-05-190000-180&timestamp=1530813602675
[22] Data yn deillio o adroddiadau blynyddol Banc Busnes Prydain ar gyllid ecwiti BBaCh yn y DU yn y *Traciwr ecwiti busnesau bach*.

Yn ôl *Monitrydd Cyllid BBaChau*, dim ond 3% o BBaChau yn y DU a ddefnyddiodd gyllid ecwiti yn 2018.[23] Mae rhywfaint o amrywiaeth ar draws bandiau maint cyflogaeth gwahanol.

Nododd Banc Busnes Prydain (2014) fod 9% o gwmnïau canolig eu maint yn y DU yn gwneud defnydd o gyllid ecwiti, y rhan fwyaf ohonynt mewn gweithgynhyrchu. Roedd gwerth y cyllid a godwyd rhwng £2m a £50m ar gyfer 29% o fentrau canolig a ddefnyddiodd gyllid ecwiti. Cododd un rhan o bump o gwmnïau canolig lai na £0.5m o gyllid ecwiti. Tai ecwiti preifat yn y DU oedd y buddsoddwyr dominyddol yn yr achosion hyn. Mewn 9% o'r achosion lle'r oedd cwmnïau canolig yn defnyddio ecwiti, ffynhonnell yr arian oedd buddsoddwyr Angel ac mewn 10% o achosion roedd y ffynonellau yn gyfalafwyr menter. Mewn mwy na hanner y cwmnïau a arolygwyd a gefnogwyd gydag ecwiti, cafodd y buddsoddwr ecwiti ei gynnwys ar fwrdd y cwmni.

Datganodd Banc Busnes Prydain (2014) mai'r prif reswm pam nad oedd cwmnïau canolig eu maint ddim am ddefnyddio cyllid ecwiti oedd oherwydd bod digon o gyllid ar gael o ffynonellau eraill. Datgelodd eu hymchwil hefyd fod cyllid ecwiti yn amhoblogaidd oherwydd canfyddiadau negyddol mewn perthynas â ffocws buddsoddwyr ecwiti ar elw tymor byr, dealltwriaeth allanol arwynebol o anghenion busnes, gwrthdaro posibl rhwng cynlluniau buddsoddwyr a'r strategaeth fusnes, a phryderon ynglŷn â rheoli'r cwmni. O ganlyniad, roedd cyllid ecwiti yn llawer is na'r rhestr o opsiynau ar gyfer ariannu BBaCh, ar ôl cyllid mewnol a benthyciadau / gorddrafftiau banc.

## 3.2. Patrymau daearyddol mewn ariannu ecwiti BBaCh

Datgelodd ymchwil cynnar i mewn i fuddsoddiadau cyfalaf menter fod bylchau ecwiti BBaCh yn bodoli mewn llawer o ranbarthau ymylol, a bylchau penodol o ran sectorau fel gwyddorau bywyd, technoleg gwybodaeth, a gweithgareddau'r cyfryngau. Nid yw daearyddiaeth ganolog system ariannol y DU yn atal bodolaeth marchnadoedd cyfalaf rhanbarthol / lleol.[24]

Fodd bynnag, yn y cyfnod rhwng 2011-2016, dywedodd Banc Busnes Prydain (2017) fod y mwyafrif o BBaCh a oedd â chefnogaeth ecwiti wedi'u lleoli yn Llundain a'r De Ddwyrain. Er enghraifft, yn 2016, gwnaethpwyd 47% o'r holl gytundebau ecwiti ar gyfer BBaCh yn y DU yn Llundain, gan gyfrif am 56% o swm buddsoddi ecwiti BBaCh y DU, er mai dim ond 20% o fentrau twf uchel oedd yn Llundain. Yn 2017, roedd 52% o fuddsoddiadau ecwiti BBaCh newydd wedi'u lleoli yn Llundain. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu nad yw cytundebau ecwiti yn cael eu cyflwyno'n ddigonol mewn rhanbarthau ymylol o gymharu â'u cyfran o gwmnïau twf uchel.

Darperir mewnwelediad arall trwy ymchwil sy'n archwilio lleoliad buddsoddiadau a wnaed gan angylion busnes. Nododd IFF Research (2017) fod 58% o angylion busnes a arolygwyd wedi buddsoddi mewn busnesau yn Llundain, 15% yn Yr Alban, 6% yng Ngogledd Iwerddon a dim ond 5% (8 mewn niferoedd absoliwt) yng Nghymru.[25] Yng Nghymru, mae 160 o angylion yn rhwydwaith Angylion Buddsoddi Cymru, gyda thua 85% yn byw yng Nghymru, tra bod y 15% sy'n weddill yn byw mewn mannau eraill yn y DU / dramor. Canfu IFF Research (2017) hefyd fod 57% o angylion busnes a arolygwyd ganddynt hwy yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Cyfran Yr Alban o angylion busnes y DU oedd 8%, Canolbarth Lloegr 7%, De-orllewin Lloegr 5%, Gogledd Iwerddon 4%, a dim ond 2% yng Nghymru.

---


[23] BDRC (2018) M*onitrydd Cyllid BBaCh Ch 2018.* Ar gael ar: http://www.bva-bdrc.com/wp-content/uploads/2019/03/BVABDRC_SME_Finance_Monitor_Q4_2018_FINAL.pdf

[24] Mason, C. and Harrison, R. (2002) The Geography of Venture Capital Investments in the UK. *Transactions of the Institute of British Geographers* 27, 427-451.

[25] IFF Research (2017) *Business Angel Spotlight.* Ar gael ar: https://www.british-business-bank.co.uk/wp-content/uploads/2017/12/Business-Angels-2017-Research-Findings-compressed-FINAL.pdf

Mae Ffigur 3 yn dangos cytundebau ecwiti fesul 10,000 o BBaCh yn ôl rhanbarth y DU, a nifer y cyfalafwyr menter fesul 10,000 o BBaCh yn ôl rhanbarth y DU, ac mae'n datgelu gwahaniaethau amlwg. Nid yw Cymru yn perfformio'n dda o ran nifer y cyfalafwyr menter fesul 10,000 o BBaCh, ond mae ganddi berfformiad cryfach ar nifer y cytundebau ecwiti fesul 10,000 o BBaCh. Cymru yw'r rhanbarth sydd â'r trydydd nifer uchaf o gytundebau ecwiti fesul 10,000 o BBaCh yn y DU. Er nad yw hyn o reidrwydd yn golygu *llawer* o fuddsoddiad ecwiti o ran gwerth, gallai'r *nifer* fawr o dderbynwyr buddsoddiad ecwiti awgrymu symiau buddsoddi cyfartalog is.

**Ffigur 3: Cytundebau ecwiti a nifer y cyfalafwyr menter fesul 10,000 BBaCh yn ôl rhanbarth y DU [26]**





Darparodd yr *UK Business Angel Market* Banc Busnes Prydain (2018) hefyd wybodaeth am nifer y cytundebau ecwiti gan y ganolfan ariannol ranbarthol (Ffigur 4). Datgelodd y dadansoddiad sylfaenol hynny fod:

- **Caeredin** yn arbenigo mewn busnesau newydd uwch-dechnoleg. Rhwng 2015 a 2017, gwnaed 114 o fuddsoddiadau ecwiti newydd yn bennaf yn ymwneud â meddalwedd a sectorau busnes a phroffesiynol.
- **Manceinion** wedi cofnodi 81 cytundeb ecwiti newydd o 2015 i 2017. Roedd sectorau mawr o ran twf a buddsoddiad ecwiti yn cynnwys technoleg (meddalwedd), gwasanaethau busnes a phroffesiynol, a chyfathrebu.
- **Bryste** yn arbenigo mewn cwmnïau technoleg a'r diwydiant micro-electroneg. Rhwng 2015 a 2017, cofnododd Bryste 63 o gytundebau ecwiti, yn enwedig mewn meddalwedd.
- **Caerdydd** wedi cofnodi 50 cytundeb ecwiti newydd rhwng 2015 a 2017. Roedd sectorau sylweddol o ran cytundebau ecwiti yn cynnwys meddalwedd, a gwasanaethau busnes a phroffesiynol.

[26] IFF Research (2017) gweler uchod.

**Ffigur 4: Nifer y cytundebau ecwiti mewn dinasoedd penodol yn y DU [27]**




### 3.3. Cyflenwad ecwiti ac ecosystemau entrepreneuraidd yn y DU

Mae presenoldeb clystyrau o weithgarwch busnes, ynghyd â chyflenwad cyllid ecwiti cryf yn elfennau allweddol o ecosystem entrepreneuraidd. Gellid deall bod ecosystem o'r fath yn dod â phrif asiantau a rhanddeiliaid ynghyd er mwyn helpu cymuned entrepreneuraidd i dyfu, ac i gefnogi arloesedd i greu budd economaidd.

Mae prif elfennau ecosystem entrepreneuraidd yn cynnwys: y wladwriaeth, sefydliadau ymchwil, busnesau, a chyfalaf cyllid risg.[28] Mae'r ecosystem yn dod â'r gymuned entrepreneuraidd yn agos at y tair cymuned arall. Yn gyntaf, mae'n dod yn agos at brifysgolion er mwyn cael gafael ar ddoniau / talentau. Yn ail, yn agos at fuddsoddwyr cyfalaf er mwyn codi arian a thrawsnewid gweledigaethau a syniadau i gynhyrchion a gwasanaethau. Yn drydydd, agosrwydd at y llywodraeth a allai ddod ag adnoddau a chymhellion addas sy'n cyflymu twf busnes ac sydd ag effeithiau lleol dynamig wrth gynyddu'r agosrwydd rhwng rhanddeiliaid allweddol.

Mae cydrannau dilynol ac eilaidd ecosystem yn cynnwys cronfa lafur arbenigol fawr, rheolwyr effeithlon, parthau menter neu ganolfannau cydweithio, gwasanaethau ariannol amrywiol, a chyllid ail rownd.[29] Mae'r cyfuniad o'r agweddau hyn yn creu elfennau allanol cadarnhaol, megis arloesedd a gorlif o wybodaeth a throsglwyddo technoleg.

Yn y DU, mae Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt yn enghreifftiau o ecosystemau entrepreneuraidd, yn ôl Banc Busnes Prydain (2018). Ystyrir pob un o'r lleoliadau hyn isod, cyn symud, yn rhan nesaf yr adroddiad, i ganolbwyntio mwy ar gyflwr ecwiti yng Nghymru.

---

[27] British Business Bank (2018) *The UK business angel market*. Ar gael ar: https://www.british-business-bank.co.uk/wp-content/uploads/2018/06/Business-Angel-Reportweb.pdf
[28] Engel, J. (2014) *Global Clusters of Innovation: Entrepreneurial Engines of Economic Growth around the World*. Northampton, Edward Elgar.
[29] British Business Bank (2017) *Small Business Equity Tracker 2017*. See earlier.

**Llundain:** Mae Dinas Llundain yn effeithio ar ardal Llundain Fawr gyda chanolbwynt gofodol gweithgarwch ariannol yn cael effeithiau gorlifol o ran gwybodaeth, technoleg a chyfalaf dynol. Llundain yw un o'r canolfannau technolegol mwyaf arwyddocaol yn y byd, ac mae ymysg y pum canolfan ariannol fyd-eang uchaf. Mae sefydliadau ymchwil Llundain yn gymharol gryf, gan ddenu unigolion â sgiliau uchel, tra hefyd yn cynnal nifer uchel o gyflymwyr a deoryddion, yn ogystal â buddsoddiad sylweddol mewn deilliannau prifysgolion. [30] Ar y sail hon, mae ecosystem entrepreneuraidd Llundain yn darparu dwysedd critigol o wybodaeth ac arbenigedd ariannol, ynghyd â nifer fawr o lafur medrus, pobl fusnes a gwasanaethau cefnogol. Mae Llundain wedi cael ei hadnabod fel yr ecosystem sy'n perfformio orau yn Ewrop, yn enwedig o ran busnesau newydd**.** [31]

Mae **Caergrawnt a Rhydychen** yn ddinasoedd gyda nifer cymharol uchel o gytundebau ecwiti o ystyried eu maint bach. Yn ôl Banc Busnes Prydian (2018), derbyniodd 148 o fusnesau yng Nghaergrawnt a Rhydychen fuddsoddiad ecwiti yn 2015-2017. Mae elfennau pwysig o'r ecosystem hon yn cynnwys presenoldeb sefydliadau ymchwil sylweddol, gyda'r prifysgolion yn cefnogi syniadau graddedigion trwy gyfrwng cynlluniau Menter Prifysgol Caergrawnt a Phrifysgol Rhydychen, sy’n golygu cefnogaeth i lawer o'r busnesau newydd uwch-dechnoleg yn yr ardaloedd hyn. Mae arbenigedd, gwybodaeth, cymorth ariannol a seilwaith i gyd yn cydfodoli ac yn rhyngweithio â busnesau yng nghoridor Rhydychen-Caergrawnt. At hynny, mae agosrwydd Rhydychen a Chaergrawnt i ganolfan ariannol Llundain a Llywodraeth y DU o fudd i'r meysydd hyn o ran datblygu ecosystemau. Mae gweithgareddau economaidd mawr sy'n denu ecwiti yn cynnwys meddalwedd a gwyddorau bywyd, tra bo’r rhan fwyaf o fentrau yn ddwys o ran gwybodaeth, gyda ffocws penodol ar fiotechnoleg.

